

## **A i Y – Eisiau bod yn diwtor?**

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn creu **ADNODDAU** newydd e.e. llyfrau cwrs, pecyn adnoddau, clipiau sain a fideos, cyflwyniadau PowerPoint a lluo o adnoddau ar-lein.

Mae cael **BWRLWM** yn y dosbarth yn holl bwysig. Gwna'n siŵr bod digon o gyfle gyda'r dysgwyr i symud o gwmpas a rhwydweithio gyda'i gilydd yn ystod y wers wyneb yn wyneb. Peidiwch â bod yn eisteddog ar-lein chwaith – mae angen digon o amrywiaeth a chyfleoedd i godi.

Mae rhaglen **CEFNOGI DYSGWYR** gan bob darparwr a gan y Ganolfan Genedlaethol. Mae'n bwysig ein bod yn annog ein dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r dosbarth e.e. clybiau clonc, boreau coffi, clwb darllen, Gŵyl Ar Lafar, teithiau cerdded ond i enwi rhai.

Mae'r bwysig cael digon o **CHWERTHIN** a hwyl yn y dosbarth.

Mae 11 **DARPARWR** gweithgar iawn ar draws Cymru yn cynnal cyrsiau ar ran Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Rhaid sicrhau bod gwersi Cymraeg yn **DDIDDOROL**. Mae'n bwysig cynnal diddordeb y dysgwyr drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dysgu a gweithgareddau.

Rhaid bod yn **EGNÏOL** wrth ddysgu Cymraeg i oedolion. Mae ennyn diddordeb y dysgwyr o'r cychwyn cyntaf ac ar hyd eu taith ddysgu yn holl bwysig.

**FAINT** o ddysgwyr? Mae tua 16,000 o bobl yn dysgu Cymraeg gyda'r Ganolfan bob blwyddyn, heb sôn am y miloedd sy'n dysgu mewn ffyrdd eraill fel Say Something in Welsh a Duolingo. Mae'n gyfnod cyffrous i fod yn rhan o fwrlwm y sector Dysgu Cymraeg.

Mae'r dosbarth Cymraeg yn lle da i wneud **FFRINDIAU**. Mae creu cymuned ddysgu groesawgar a chyfeillgar yn holl bwysig er budd y dysgwyr o'r cychwyn cyntaf.

Ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu ar lefel Uwch, rydyn ni'n darparu pum **GWERS GYFOES** bob blwyddyn. Mae'r gwersi hyn yn helpu'r tiwtor i gyflwyno gwybodaeth am y byd Cymraeg, e.e. dramâu, rhaglenni teledu a mudiadau Cymraeg.

Mae Cynllun [Defnyddio Fy NGHYMRAEG](#) yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr osod targedau.

Mae **HYFFORDDIANT** lleol a chenedlaethol yn cael ei drefnu yn ystod y flwyddyn. Bydd y sesiynau hyfforddi hyn yn gyfle i ti ddatblygu dy sgiliau a dod i nabod cannoedd o diwtoriaid ar draws Cymru.

Er mwyn meithrin siaradwyr, rhaid gwneud defnydd da o'r **IAITH** darged ar draws y lefelau. Mae'n bwysig i'r tiwtor a'r dysgwyr siarad Cymraeg â'i gilydd ar y lefel briodol o'r cychwyn cyntaf.

**JOIO!** – dyma'r allwedd i lwyddiant ym mhob dosbarth Cymraeg.

Mae pum **LEFEL** ddysgu – Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Gloywi. Mae'r lefelau hyn wedi'u mapio yn erbyn lefelau Ewropeaidd ar gyfer dysgu ieithoedd.

Rydyn ni'n dathlu **LLWYDDIANNAU** dysgwyr sy'n sefyll un o arholiadau CBAC bob blwyddyn Mae modd sefyll arholiad Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid newydd yn dechrau trwy ddysgu dosbarthiadau **MYNEDIAD**.

Mae cyfnewid **NEWYDDION** personol ar ddechrau gwrs yn helpu creu ymdeimlad o gymuned o fewn y dosbarth.

**O gam i gam** bydd y dysgwyr yn siarad a deall mwy a mwy o Gymraeg. Un cynllun sy'n cyd-fynd â chynnydd y dysgwyr yw llyfrau darllen cyfres Amdani. Mae cloriau'r llyfrau yn ymddangos yn y llyfrau cwrs.

Mae llawer o diwtoriaid **PROFIADOL** iawn yn y maes yn barod a byddant yn fwy na pharod i rannu arferion da gyda ti ar dy daith i fod yn diwtor.

Bydd y wers yn llwyddiant gyda **PHARATOI** trylwyr. Mae Cynllun Gwers Cenedlaethol ar gael i ti ei ddefnyddio er mwyn dy helpu i baratoi'n drefnus.

Mae'r darparwyr yn **RECRIWTIO** tiwtoriaid newydd yn flynyddol i'r sector Dysgu Cymraeg.

Mae'r Safle **RHYNGWEITHIOL** yn blatfform ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr.

Mae'r cynllun **SIARAD** yn gynllun sy'n paru dysgwyr a siaradwyr Cymraeg er mwyn iddynt ymarfer siarad a gwneud pob math o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i'r dosbarth.

Mae gan bobl nifer o resymau dros ddysgu Cymraeg. Mae rhai'n dysgu Cymraeg ar gyfer y **TEULU**. Mae nifer o gyrsiau Cymraeg yn y Cartref yn cael eu trefnu ar draws Cymru.

Gyda **THIWTOR** brwdfrydig, gweithgar, amyneddgar a threfnus mae unrhyw beth yn bosibl!

Yr **UCHAFBWYNT** yw dilyn taith y dysgwr o'r wers gyntaf hyd at ruglder.

Bydd y Cylchlythr Tiwtoriaid yn rhoi pob math o **WYBODAETH** i ti am ddigwyddiadau, hyfforddiant, adnoddau a llawer mwy.

Pa well swydd nag **YSBRYDOLI** pobl i siarad Cymraeg!